

<b>Teitl y Swydd:</b>	Mentor Coed Actif
<b>Cyflogwr:</b>	Cymdeithas Coed Lleol, elusen gofrestrdig 1081874
<b>Tâl:</b>	£19,291 - £20,899 pro rata O bosib bydd opsiwn i ymgymryd â'r gwaith hwn ar sail hunangyflogedig.
<b>Oriau Gweithio:</b>	Un diwrnod yr wythnos. Oriau gweithio yn hyblyg ond bydd angen i chi fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau ar ddiwrnodau penodol.
<b>Atebol i:</b>	Rheolwr Coed Lleol
<b>Cyfrifol am:</b>	Y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan, sefydliadau partner ac arweinwyr y coetir.

**Pwrpas y Swydd:**

- **Mentora sefydliadau a gwirfoddolwyr mewn sut i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer lles**
- **Datblygu rhaglenni gweithgarwch a all fod yn hunangynhaliol**
- **Hwyluso monitro prosiect drwy ddefnyddio cronfa ddata well (neu annog partneriaid i wneud hynny)**

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

1. Gweithio â grwpiau Coed Actif presennol a/neu newydd (neu bartneriaid) i ddatblygu rhaglen gweithgarwch coetir sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u gallu.
2. Mentora gwirfoddolwyr a sefydliadau partner drwy sesiynau am goetiroedd, gan eu cysgodi neu arddangos arferion gorau, fel bo angen.
3. Cefnogi'r grŵp i sefydlu ei strwythur – h.y. a yw'n grŵp sefydledig (sy'n gallu ceisio cyllid ychwanegol), grŵp cyfeillion caeedig, grŵp sefydliad partner, elusen gofrestrdig ac ati – sicrhau fod gan y grŵp hyn wedi ei nodi mewn ysgrifen.
4. Mynd i'r afael ag Asesiad Anghenion Hyfforddiant ar gyfer grwpiau a sicrhau bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu i gwrdd â'r gofynion hynny; yn arbennig o ran adeiladau gallu grwpiau i gynnal eu hunain.
5. Trefnu hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a sefydliadau partner i feithrin eu gallu i ddefnyddio'r coetiroedd.
6. Sicrhau bod y grwpiau'n deall y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch: cynnal asesiadau risg, caniatâd coetir, cymorth cyntaf a chysylltiadau mewn argyfwng.
7. Sefydlu caniatâd â rheolwyr y coetir fel bod y ddwy blaid yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig. Sicrhau bod hyn mewn ysgrifen pan fo angen.
8. Sicrhau bod y grŵp yn monitro ac yn cadw cofnodion o gyfranogiad, sesiynau gweithgaredd,

hyfforddiant ac ati drwy ddefnyddio cronfa ddata.

9. Cefnogi'r grŵp i geisio am arian ar gyfer unrhyw gymorth neu weithgareddau ychwanegol y dymuna ymgymryd â hwy, (ac ystyried pwy fydd yn gweinyddu'r grant - gall fod yn Goed Lleol ond nid o anghenraid).
10. Casglu'r holl adnoddau presennol (gweithgareddau, asesiadau risg, gwybodaeth safle) y gellir eu rhannu â phartneriaid eraill a gwirfoddolwyr yn yr ardal leol.
11. Darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth i wirfoddolwyr (ysgrifennu disgrifiadau rôl, cyfarfod pob ychydig fisoedd ac ati).
12. Mynychu Cyfarfodydd Tîm Coed Actif Cymru bob yn ail mis.
13. Cyfarfod â phartneriaid yn yr ardal leol i ddatblygu partneriaethau.

**Manyldeb y person:**

Hanfodol	Dymunol
Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd prosiect tebyg	Profiad blaenorol o ddylunio a rhedeg gweithgareddau yn seiliedig ar y coetir i oedolion, neu raglenni iechyd awyr agored eraill.
Brwdfrydedd ar gyfer iechyd a lles yn yr awyr agored.	Gwybodaeth flaenorol am goetiroedd a rheoli coetir.
Brwdfrydedd am goetiroedd a phobl.	Cymhwyster proffesiynol perthnasol.
Llythrennedd TG da yn gyffredinol gyda'r gallu i ddefnyddio MS Office a chadw cofnodion yn electronig, yn cynnwys defnyddio cronfa ddata ac e-bost.	Profiad o gael caniatâd coetiroedd a chysylltu â rheolwyr y coetiroedd.
Trwydded yrru gyfredol a char eich hun wedi'i yswirio ar gyfer gwaith .	Profiad blaenorol o reoli gwirfoddolwyr.
Dealltwriaeth am yr anghenion iechyd a diogelwch a'r asesiadau risg.	
Parodrwydd i weithio â gwirfoddolwyr ac adeiladu gallu i alluogi gweithgareddau i barhau wedi diwedd y rhaglen.	
Dealltwriaeth am fwyta'n iach, a pharodrwydd i ymgorffori hyn yn y sesiynau.	
Siaradwr Cymraeg neu ddysgwyr ag ymrwymiad at bolisi dwyieithog, a pharodrwydd i ymgorffori'r Gymraeg lle bo'n bosib.	